



Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 8^{fed} o Dachwedd 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Rebecca Butcher (Is-gadeirydd), y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Robert Jones, Roger Phillips (Clerc Tref)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Colin Jenkins, Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Cof 180 / Tach / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 181/ Tach / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/36352 Estyniad arfaethedig i'r llawr cyntaf uwchben y llawr gwaelod presennol yn 27, Lôn Rhys.
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod yr holl reoliadau adeiladu yn cael eu bodloni.

E/36256 Arfaethedig yn 10, Heol Caerfyrddin.
Sylw : Pryder am ddiffyg gwybodaeth fanwl yn y cais.
Mae angen eglurhad pellach ynghylch uchder y garej, a allai amharu ar breifatrwydd y cymdogion.

Cof 182 / Tach / 17 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/35892 Ychwanegu estyniad llawr cyntaf ar ben y siop un llawr presennol yn 11, Heol Newydd.
RHODDWDYD.

E/36936/7 Newid y defnydd a wneir o'r llawr cyntaf a'r ail lawr, o ddefnydd domestig i swyddfa a'r defnydd a wneir o'r llawr gwaelod, o fod yn siopau i fod yn swyddfa. Ail-ddylunio'r astell dywydd uwchben wal ffrynt y siop. Altradau mewnol a dymchwel yr estyniad yn y cefn a'i ail-adeiladu yn 2, Stryd y Brenin. Cais adeilad rhestredig hefyd.
RHODDWDYD.

Cof 183 / Tach / 17 Doedd dim Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

Cof 184 / Tach / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Oherwydd nad oedd Mr Davies yn bresennol, cafodd yr adroddiad ei nodi.

Cof 185 / Tach / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phrifyrdd

1. Alun Rees, Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus CSG, ynglŷn â'r adroddiad Ansawdd Aer ar gyfer Llandeilo. Roedd pedair ardal yn y Dref yn rhagori ar y lefel dderbyniol o Nitrogen Deuocsid. Roedd rhai o'r ardaloedd yma'n cofnodi lefelau sydd ddwbl y lefelau a ganiateir. Cytunwyd byddai'r Clerc yn anfon yr adroddiad ymlaen i Lywodraeth Cymru i gynnig sylwadau.
2. Alan Warner, ynglŷn â llwybr troed 69/1A/1. Oherwydd bod y llwybr hwn wedi cael ei esgeuluso ers blynnyddoedd, byddai'r swyddogion hawliau tramwy yn ystyried y gost uchel o atgyweirio yn erbyn eu cyllideb gyffredinol. Nodwyd.
3. John McEvoy, ateb i ohebiaeth y Cyng. Edward Thomas mewn perthynas â pharcio ceir ar balmartau a, thrwy hynny, gorfodi cerddwyr, yn enwedig y rheiny â phlant bach, i gerdded ar y ffyrdd. Dywedodd Mr McEvoy nad yw parcio ceir yn y modd hwn yn anghyfreithlon, oni bai eu bod yn achosi rhwystr. Dywedodd y SCCH Roger Anthony y byddai'n gosod rhybuddion ymgynghorol ar gerbydau o'r fath. Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod pob un o'r Cynghorwyr yn casglu tystiolaeth ffotograffig am y mis nesaf, i'w anfon i'r Heddlu er mwyn tynnu sylw at y broblem, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 186 / Tach /17 Gohebiaeth

1. John Davies, Llywodraeth Cymru, ynglŷn ag ymgynghoriad ar Daliadau Claddu. Roedd y cynnig am gytundeb na fyddai unrhyw Gynghorau lleol yn codi tâl am gladdu neu amlosgi plant. Nodwyd.
2. CSG, ynglŷn â Gwobrau Arwyr Chwaraeon Lleol. Nodwyd.
3. Adolygiad Comisiwn Ffiniau i Gymru 2018. Byddai hyn yn arwain at etholaeth newydd Sir Gaerfyrddin, yn hytrach na Dwyrain Caerfyrddin a Gorllewin Caerfyrddin, ond heb gynnwys Llanelli. Nodwyd.
4. Ymddiriedolaeth Hywel Dda. Ymgynghoriad Cynllunio i'r Dyfodol. Nodwyd.

Cof 187/ Tach / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh.